## **Bwletin o Batagonia 13 – y Dulog gan Twm Elias**



*Y dulog mawr yn Punto Tombo, 2 Ebrill, 2022*

De America yw cartref y 21 rhywogaeth o armadilos yn y byd, er bod un math, yr armadillo 9-gwregys wedi ymledu i'r gogledd yn ystod y ganrif ddiwethaf ac i'w gael yn amryw o daleithiau deheuol ur UD erbyn hyn. Ceir dau aelod o'r teulu ym Mhatagonia, lle cawsant yr enw Dulog gan y gwladfawyr Cymreig. Rhain yw y dulog mawr *(Chaetophractus villosus)* sydd yn 48 cm gyda ymylon ei gragen yn flewog a'r dulog bach neu'r pichi *(Zaedyus pichiy)* sydd yn 41 cm, â'i gragen yn llai blewog.

Nodweddir y ddau gan gragen galed ond nid ydynt fel arfer yn rowlio'r belen gron i amddiffyn eu cyrff rhag gelynion fel y gwna amryw o armadilos eraill. Dibynant yn hytrach ar redeg yn gyflym a gallant dyllu i'r tir gweddol dywodlyd y maent yn byw ynddo yn rhyfeddol o gyflym a chau'r fynedfa ar eu hôl.

Hyd y 1930au yr Afon Camwy yn Nyffryn Chubut oedd ffin ddeheuol y dulog mawr, ond ers hynny gallodd fanteisio ar bontydd i groesi'r afon, nes erbyn hyn fe'i ceir hyd at ardaloedd mwyaf deheuol yr Ariannin. Roedd y dulog bach, ar y llaw arall, eisoes i'w gael ymhell i'r de yn yr Ariannin a Chile.

Tra bo'r dulog mawr yn bwyta celannedd, chwilod, madfallod, nadroedd a mamaliaid bychain, mae'r dulog bach yn dueddol o fod yn fwy llysieuol ei fryd, yn bwyta pryfed a chwilod ond yn bennaf gwraidd rhai planhigion. Am y rheswm hwn dywedir bod blas gwell ar gig y dulog bach ac arferid ei ddal i'w fwyta. Ond rhaid symud yn gyflym i wneud hynny am y gall redeg yn gyflym rhwng y llwyni a cheid cryn ddifyrwch yn ceisio cael gafael ynddo cyn iddo dyrchu i'r ddaear o'r golwg o fewn eiliadau. Erbyn hyn mae'r dulog bach wedi prinhau ac mae gwaharddiad ar ei hela.

Mewn un ardal, sef Drofa Dulog ar lawr Dyffryn Camwy rhwng y Gaiman a Trelew, dywedir bod y dulog yn bla ar un adeg am yr arferai ddod i'r cytiau ieir i ddwyn bwyd yr ieir ac wyau. Cefais hanes gan Ifon Owen, fferm Dedwyddfa, am yr arfer ar y ffermydd o osod y rhes o flychau nythu'r ieir o leiaf un metr o'r llawr, allan o gyrraedd y dulog. Meddyliwch am siom

Ifon un tro, o fynd i'r cwt ieir, oedd â llawr pridd iddo, a chanfod bod dulog wedi tyrchu twll mawr o flaen rhai o'r blychau nythu gan greu toman o bridd ddigon uchel fel y gallai sefyll arni i gyrraedd y nythod a'r wyau.